## Cylch Gorchwyl Pwyllgor:

## GRŴP DYFARNIADAU ER ANRHYDEDD

Yn adrodd i: Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio

Yn cwrdd: unwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Hydref 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Gorffennaf 2018; ac i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Is-Ganghellor (Cadeirydd)<br>• 1 Dirprwy Is-Ganghellor<br>• 2 aelod o'r Senedd<br>• 1 aelod o'r staff anacademaidd<br>• 1 aelod o blith y myfyrwyr<br><br>6 aelod.<br><br>Cworwm: 4 aelod. | • Cyfarwyddwr Cysylltiadau ag Alumni<br>• Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor<br>• Ysgrifennydd y Brifysgol<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol. |

Cylch gwaith:

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn flynyddol i ystyried yr enwebiadau a ddaeth i law ar gyfer Dyfarniadau er Anrhydedd gan y Brifysgol, a chytuno ar restr fer o unigolion addas i'w hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, a fydd yn ei dro yn cytuno ar argymhelliad addas i'r Cyngor.

---

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried y canlynol ar ran Gweithrediaeth y Brifysgol a'u hargymell i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor, drwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio:

   a. Yr holl enwebiadau a ddaeth i law ar gyfer Dyfarniadau er Anrhydedd gan Brifysgol Aberystwyth (Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Graddau er Anrhydedd), gyda rhestr fer o unigolion addas y cytunwyd arni i'w hystyried ymhellach gan y cyrff uwch; a
   b. Dirymu Dyfarniad er Anrhydedd a roddwyd o'r blaen gan y Brifysgol.

2. Ystyried y canlynol, a bod â'r awdurdod i'w hadolygu a'u cymeradwyo ar ran Gweithrediaeth y Brifysgol:

   a. Enwebiadau i'w gwneud gan y Brifysgol ar gyfer Anrhydeddau allanol.

---

Gweithredu

Gwahoddir enwebiadau ar gyfer unigolion addas bob hydref mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Grŵp Dyfarniadau er Anrhydedd. Gall enwebiadau gael eu cyflwyno hefyd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, a'u dal yn ôl tan y cyfarfod o'r Grŵp sydd wedi'i drefnu.

Wrth ystyried yr enwebiadau a ddaeth i law, rhaid i'r Pwyllgor roi sylw priodol i'r meini prawf a ganlyn:

*Cymrodoriaethau er Anrhydedd*

Cymrodoriaethau er Anrhydedd yw prif ddull Prifysgol Aberystwyth o anrhydeddu unigolion, ac fe gaiff y rhain eu dyfarnu i anrhydeddu unigolion sydd, neu a fu, â chysylltiad ag Aberystwyth neu â Chymru yn gyffredinol, ac a wnaeth gyfraniad eithriadol yn eu dewis faes. Disgwylir i'r rhai sy'n derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd sefydlu perthynas barhaus â'r Brifysgol ac fe'u gwahoddir i Ginio Blynyddol y Cymrodyr.

*Doethuriaeth honoris causa*

Gellir dyfarnu gradd Doethuriaeth er Anrhydedd i rai sydd wedi bod yn eithriadol lwyddiannus yn eu maes, neu sydd â hanes hir o ymchwil a chyhoeddiadau clodwiw.

*Baglor yn y Celfyddydau honoris causa a Baglor yn y Gwyddorau honoris causa*

Gellir dyfarnu gradd Baglor er Anrhydedd i unigolion sy'n cwrdd â'r meini prawf canlynol:

a. aelodau o staff Prifysgol Aberystwyth heb radd lefel-mynediad i gydnabod gwasanaeth hir, cyfraniad ac ymroddiad i'r Sefydliad; a
b. aelodau o'r gymuned leol a wnaeth gyfraniad sylweddol i Aberystwyth a'r cyffiniau.